**LC475**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002**

Mae'r rhain yn diwygio Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995 a Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) 1995 trwy roi effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2001/471/EC sy'n gosod rheolau ar gyfer cynnal gwiriadau hylendid rheolaidd  mewn lladd-dai a safleoedd eraill.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ystyrir bod angen codi'r cwestiynau canlynol gyda'r Gweinidog priodol o dan Reol Sefydlog 11.4.

- A ellid esbonio sut mae'r cyfeiriad at 'TVC' yn gweithio yn yr Atodlen 17C a fewn osodwyd gan fod paragraff 5(a) o'r Atodlen honno fel pe bai yn defnyddio'r term ar gyfer 'total viable count' a 'total colony count'?
- Mae'r talfyriad 'ISO' yn cael ei ddefnyddio mewn nifer o lefydd yn y testun sydd yn cael ei fewnosod, oes gan hwn ystyr sydd wedi ei dderbyn neu a oes angen ei ddiffunio?

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rhaglith**

Mae'r cyfeiriad at Ddeddf y Cymunedau  Ewropeaidd 1972 yn datgan bod y Cynulliad wedi ei ddynodi at ddibenion adran 2(2) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin, ond nid yw mewn gwirionedd yn datgan bod y rheoliadau yn cael eu gwneud o dan yr adran honno.

537

**Rheoliad 3(8) – Paragraff 5(a) o Atodlen 17C a fewnosodwyd**

Mae ‘practicabe’ wedi ei gam brintio.

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD01-01-537
7 Mai 2002